Ionawr 2025

PSAG

Grŵp Gweithredu ar Sgamiau Pensiynau

Cydweithredu yn erbyn sgamiau pensiynau

# Camau i gadw'n ddiogel rhag sgamiau

**Mae sgamwyr yn edrych yn broffesiynol** ac mae hi'n dod yn gynyddol anoddach i weld y gwahaniaeth rhwng rhywbeth sy'n gredadwy a rhywbeth sy'n dwyllodrus.

Mae'r**Grŵp Gweithredu ar Sgamiau Pensiynau**wedi rhoi rhestr wirio at ei gilydd i fynd drwyddi pe bae rhywun yn cysylltu â chi am eich pensiwn.

**Eich pensiwn yw eich dyfodol - cadwch ef yn ddiogel**

The Pensions Regulator | Department for Work & Pensions | FCA Financial Conduct Authority | HM Treasury | Money & Pensions Service | NECC National Economic Crime Centre | PSIG Pension Scams Industry Group

CAM 1

## Ydy'r cynnig yn annisgwyl?

Mae darparwyr pensiynau dilys yn hynod o annhebygol o gysylltu â chi yn hollol annisgwyl am eich pensiwn. Byddwch yn wyliadwrus o gynigion o adolygiadau pensiynau am ddim a/neu addewidion o enillion uchel/wedi eu gwarantu.

CAM 2

## Ydych chi wedi gwirio â phwy rydych yn delio â nhw?

Mae gan wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) Gofrestr Gwasanaethau Ariannol gallwch ei gwirio i wneud yn siŵr fod gan unrhyw un sy'n cynnig cyngor neu wasanaethau i chi wedi ei awdurdodi i wneud hynny.

Caiff cwmni sy'n cymryd arno fod yn gwmni sydd wedi ei awdurdodi ei adnabod fel 'cwmni clôn' a gallai fod ganddo wefan sy'n edrych yn union yr un fath â'r un go iawn. **Awgrym:** gwiriwch eu manylion cyswllt yn erbyn y gofrestr ddwywaith i weld os ydynt yn cyfateb. Gwnewch yn siŵr bob tro bod cwmni wedi ei awdurdodi gan yr FCA neu ni fyddwch yn cael eich diogelu gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol neu'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.

Gwefan: **register.fca.org.uk** Ffôn: **0800 111 67 68**

CAM 3

## Stopiwch a meddyliwch – ydych chi'n cael eich rhuthro neu'n cael pwysau ei roi arnoch chi?

Mae cael pwysau wedi ei roi arnoch chi i weithredu'n gyflym yn aml yn arwydd o rybudd. Cymerwch eich amser i wirio popeth rydych chi ei angen a chofiwch os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod.

CAM 4

## Dylech chi geisio cyngor neu arweiniad diduedd?

**HelpwrArian**
Gwybodaeth ac arweiniad diduedd ac am ddim ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy sgwrsio ar y we.

Gwefan: **Moneyhelper.org.uk** Ffôn: **0800 011 3797**

**Ymgynghorwyr ariannol**
Os gallwch chi, mae'n syniad da buddsoddi mewn ymgynghorydd ariannol. Yn aml mae symiau mawr o arian yn y fantol a byddan nhw'n gallu eich helpu i wneud y penderfyniad iawn i chi. **Awgrym:** gwiriwch fod unrhyw ymgynghorydd rydych chi'n ei ddewis wedi ei reoleiddio gan yr FCA.

**Stopiwch! Meddyliwch am Dwyll**
Dysgwch fwy am sut i adnabod ac osgoi sgamiau

Gwefan: **stopthinkfraud.campaign.gov.uk**

## Os ydych chi'n amau sgam, adroddwch amdano i Action Fraud

Gwefan: **Actionfraud.police.uk/contact-us**
Ffôn: **0300 123 2040**. Yn yr Alban, ffoniwch: **101**.